**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 13 MAI 2021**

**BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer (Cadeirydd) a/ac P.D.Richards

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Jarrett, A.Thomas, J.Hodges, N.Jones a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A R Lockyer yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2021 fel cofnod cywir.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022.

4. **POLISI CODI TÂL AM OFAL PRESWYL A DIBRESWYL**

Ar gais y Cyfarwyddwr, cytunwyd y dylid dileu'r eitem hon o gyfarfod heddiw er mwyn cysoni'r polisi â deddfwriaeth. Byddai'n cael ei chyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn penderfynu arni.

**Penderfyniad:**

Gohirir ystyried yr adroddiad yng nghyfarfod heddiw.

5. **PECYN CYD-GYNHYRCHU RHANBARTHOL AR GYFER Y BARTNERIAETH RANBARTHOL**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i’r Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, cymeradwyir Pecyn Cyd-gynhyrchu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, sy'n cynnwys Fframwaith Cyd-gynhyrchu, Pecyn Cymorth Cyd-gynhyrchu a Siarter Cyd-gynhyrchu.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Gwella cyd-gynhyrchu ymhellach wrth ymgymryd â rhaglenni, prosiectau a fforymau rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

6. **RHAGLEN GRANT CYFALAF TAI LLYWODRAETH CYMRU**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

7. **STRATEGAETH BUM MLYNEDD GOFALWYR RHANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i’r Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, cymeradwyir cefnogi Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Pum Mlynedd Gorllewin Morgannwg a’r ddogfen ganllaw Cyfeirio Cyflym.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Gwella ymhellach y broses o nodi, cydnabod a chefnogi gofalwyr ar draws rhanbarth Gorllewin Morgannwg.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

# CADEIRYDD